Estyn




# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Henry Richard

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae Ysgol Henry Richard yn gweithredu'n effeithiol fel un gymuned ofalgar ar gyfer disgyblion o 3 i 16 oed. Ar draws yr ysgol, mae staff yn hyrwyddo lles disgyblion yn llwyddiannus, gan ddarparu cefnogaeth fugeiliol gref. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu, ac maent yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol.

Mae'r pennaeth a'i uwch dîm arwain yn rhannu gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar ddathlu cymuned Tregaron a Chymreictod. Yn eu tro, mae athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu sydd yn aml wedi'u hysbrydoli gan yr ardal leol. Mae hyn yn agwedd nodedig o waith yr ysgol. Mae llawer o'r gwersi ar draws yr ysgol yn ddiddorol ac yn herio disgyblion yn briodol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn gwneud defnydd medrus o dechnegau fel holi a modelu. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud o leiaf gynnydd priodol yn y gwersi.

Ar y cyfan, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu eu medrau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn gryfder, gyda'r disgyblion yn elwa o gyfleoedd amrywiol i berfformio mewn gwahanol gyd-destunau. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd yn llwyddiannus, yn enwedig mewn gwersi Cymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, er bod disgyblion yn cael cyfleoedd i gymhwyso medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm, nid yw'r gweithgareddau hyn bob amser wedi'u cynllunio'n ddigon pwrpasol i alluogi disgyblion i ddatblygu eu medrau yn raddol dros amser.

Mae gan arweinwyr prosesau addas ar gyfer hunanwerthuso'r ddarpariaeth a chynllunio ar gyfer gwella, ond nid ydynt bob tro'n ffocysu digon ar effaith eu gwaith ar ddeilliannau disgyblion. Er bod lefelau presenoldeb disgyblion wedi cynyddu'n ddiweddar, nid ydynt wedi gwella i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig. Yn ogystal, mae nifer y disgyblion sy'n absennol yn barhaus yn rhy uchel.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

**A1 Sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ffocysu ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau ddisgyblion**

**A2 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynyddol disgyblion yn eu medrau**

**A3 Lleihau cyfradd yr absenoldebau parhaus**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 16/12/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.